



9.1 POLISI YMDDEOL, YMDDEOL CYNNAR AC YMDDEOL HYBLYG

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff Cyngor Gwynedd ond mae'r cymalau ynglŷn â buddiannau pensiwn yn berthnasol i aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unig.

1.0 YMDDEOL

- 1.1 Er y 6ed o Ebrill, 2011, nid yw'r Cyngor yn gweithredu polisi oed ymddeol gorfodol ar gyfer ei weithwyr.
- 1.2 Mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i gyfleon cyfartal ar gyfer ei holl weithwyr. Mae'r Cyngor yn cydnabod cyfraniad gweithlu amrywiol, gan gynnwys sgiliau a phrofiadau gweithwyr hyn. Mae'r Cyngor yn credu y dylai gweithwyr, ple bo'n ymarferol bosib iddynt barhau i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol, gael yr hawl i barhau i weithio ac i ymddeol yn wirfoddol ar adeg o'u dewis.

2.0 YMDDEOL CYNNAR

Mae'r Polisi Ymddeol Cynnar yn berthnasol i weithwyr sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unig.

- 2.1 Bydd aelodau staff sydd yn 55 mlwydd oed a throsodd yn gymwys ar gais y Pennaeth Adran perthnasol i wneud cais am ymddeoliad cynnar er mwyn:
 - osgoi diswyddiadau gorfodol. Bydd aelodau staff sydd yn gwirfoddoli mewn sefyllfaoedd o'r fath yn derbyn pensiwn heb unrhyw ostyngiad actiwaraid.
 - hwyluso ailstrwythuro a/neu wella effeithiolrwydd yr Adran. Asesir pob achos ar sail achos busnes cadarn. Os yw'r achos busnes yn llwyddiannus bydd yr aelod staff yn derbyn pensiwn heb ostyngiad actiwaraid. Mewn amgylchiadau ple

nad oes achos busnes cadarn, gellir ystyried caniatáu ymddeoliad cynnar gyda gostyngiad actiwaraidd ple'n briodol.

- 2.2 Mewn amgylchiadau o ymddeol yn gynnar, ni fydd aelodau staff yn derbyn tâl diswyddo.
- 2.3 Bydd yr Adran sydd yn elwa o'r gwelliant mewn effeithiolrwydd yn cyllido'r costau ychwanegol.
- 2.4 Bydd yn rhaid i bob cais gael ei awdurdodi gan:
 - Y Pennaeth Adran neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol
 - Pennaeth Cyllid
 - Pennaeth Adnoddau Dynol

(Gall y Prif Weithredwr a/neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol ddirprwyo ar gyfer unrhyw un o'r uchod fel bo'r angen.)

Bydd ceisiadau i ymddeol yn gynnar gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Adran yn cael eu cymeradwyo gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid (Pennaeth Adnoddau Dynol pe byddai'n gais gan y Pennaeth Cyllid) tra byddai cais i ymddeol yn gynnar gan y Prif Weithredwr yn cael ei gymeradwyo gan Arweinydd y Cyngor mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

3.0 YMDDEOL HYBLYG

- 3.1 Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod yr angen i gadw sgiliau a phrofiad ei weithwyr er budd y Cyngor a chymdeithas yn gyffredinol. Mae'r Cyngor felly yn ymrwmo i weithio gyda'i weithlu er mwyn hyrwyddo trefniadau ymddeol hyblyg fydd yn cwrdd ag anghenion yr unigolyn a'r gwasanaeth.
- 3.2 Golyga ymddeol hyblyg y gall gweithwyr dros 55 oed wneud cais i newid natur a dwysedd eu gwaith a derbyn buddiannau pensiwn cronus ac adeiladu buddion pellach o fewn y Cynllun (lle'n berthnasol) tra'n parhau mewn cyflogaeth, fydd yn eu caniatáu i ymddeol yn raddol.

Gall y newidiadau fod yn:

- ostyngiad mewn oriau
- newidiadau mewn dyletswyddau yn arwain at ostyngiad mewn graddfa

Mae'n rhaid i'r newid gwrdd ag anghenion yr Adran a bydd ar ddisgresiwn y Cyngor ac nid oes rheidwydd ar y Cyngor i ganiatáu unrhyw gais.

3.3 **Buddiannau taladwy – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Mae'r paragraff hwn yn berthnasol i weithwyr sydd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn unig.

Bydd gan pob gweithiwr sy'n 55 oed ac yn hŷn, sy'n cael caniatad i ymddeol yn hyblyg, yr hawl i'w pensiwn cronus a'i lwmp swm ac hynny yn ddarostyngedig i unrhyw ostyngiad actiwaraid rhannol neu lawn perthnasol.

Fodd bynnag, gall rhai gweithwyr oedd yn cyfrannu i'r Cynllun cyn y 1af o Hydref, 2006, fod a hawl i beth gwarchodaeth yn unol a'r rheol 85 mlynedd os y caniateir ymddeoliad hyblyg cyn cyrraedd 60 oed.

Mae'r gweithwyr sy'n disgyn i'r categori hwn ac sy'n cael caniatad i ymddeol yn hyblyg rhwng 55 a 60 oed, bydd yna gost i'r cyflogwr. O dan y fath amgylchiadau, bydd y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn penderfynu ar rinweddau pob cais ac hynny o ganlyniad i dderbyn achos busnes cryf gan y Pennaeth Adran perthnasol.

3.4 **Ceisiadau am Ymddeol Hyblyg**

Dylai gweithwyr sy'n dymuno gwneud cais am ymddeol hyblyg wneud hynny yn ysgrifenedig i'w rheolwr llinell gyda chopi i'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

Os nad ydynt yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gall y Rheolwr Llinell ganiatáu'r cais mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Personél perthnasol.

Bydd rhaid i geisiadau gan weithwyr sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gael ei awdurdodi gan:

- Y Pennaeth Adran neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol
- Pennaeth Cyllid
- Pennaeth Adnoddau Dynol

(Gall y Prif Weithredwr a/neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol ddirprwyo ar gyfer unrhyw un o'r uchod fel bo'r angen.)

Bydd ceisiadau i ymddeol yn hyblyg gan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Adran yn cael eu cymeradwyo gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid (Pennaeth Adnoddau Dynol pe byddai'n gais gan y Pennaeth Cyllid) tra byddai cais i ymddeol yn hyblyg gan y Prif Weithredwr yn cael ei gymeradwyo gan Arweinydd y Cyngor mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.

Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996

Deddf Cydraddoldeb 2010

Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Diddymiad Darpariaeth Oed Ymddeol) 2011

Adolygwyd : Awst 2012